Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Gwrandawiad cyn penodi

## Yr ymgeisydd a ffafrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cadeirydd Amgueddfa Cymru

Gorffennaf 2023

senedd.cymru

# 1. Cyflwyniad

## Gwrandawiadau cyn penodi

**1.** Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud amrywiaeth o benodiadau cyhoeddus ar draws pob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Mae'r penodiadau hyn yn uchel eu proffil ac yn gyfle i lunio a llywio llawer o'r gwasanaethau cyhoeddus y mae pobl Cymru yn eu defnyddio. Rhaid i Weinidogion Cymru wneud penodiadau cyhoeddus rheoleiddiedig yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Llywodraethu ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus[1]. Y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus[2] sy'n gyfrifol am roi sicrwydd annibynnol bod penodiadau yn cydymffurfio â'r Cod.

**2.** Cytunodd Gweinidogion Cymru a'r Senedd i gyflwyno gwaith craffu cyn penodi gan bwyllgorau'r Senedd ar gyfer rhai penodiadau cyhoeddus penodol sydd o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd neu benodiadau a fydd yn cael effaith sylweddol ar y cyhoedd. Y nod yw gwella ymhellach ar y gwaith craffu ar y broses o wneud penodiadau cyhoeddus yn ogystal â thryloywder y broses honno. Mae gwaith craffu cyn penodi yn digwydd ar ffurf gwrandawiad cyhoeddus cyn penodi, gyda'r ymgeisydd a ffafrir. Ar gyfer penodiadau i'r rolau hyn y cytunwyd arnynt, y pwyllgor perthnasol sy'n penderfynu a yw'n dymuno cynnal gwrandawiad cyn penodi.

**3.** Mae rhestr o'r penodiadau gweinidogol a all fod yn destun gwrandawiadau cyn penodi wedi'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, a chaiff ei hadolygu'n rheolaidd. Mae Cadeirydd Amgueddfa Cymru wedi'i gynnwys ar y rhestr honno.

## Amgueddfa Cymru

**4.** Sefydlwyd Amgueddfa Cymru gan Siarter Frenhinol ym 1907, ac mae'n elusen sy'n cynnwys rhwydwaith o saith amgueddfa ac un ganolfan gasgliadau wedi'u lleoli ledled Cymru. Daw'r rhan fwyaf o gyllid Amgueddfa Cymru fel Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru, y dylai ei wario yn unol â llythyr cylch gwaith[3] a gyhoeddwyd gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon a'r Prif Chwip ar y pryd. Yn 2023-24, cyllid refeniw Amgueddfa Cymru yw £26.9 miliwn.

---

[1] https://www.gov.uk/government/publications/governance-code-for-public-appointments
[2] https://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk/
[3] https://amgueddfa.cymru/llythyrau-cylch-gorchwyl/

**5.** Amcan craidd yr Amgueddfa, a nodir yn y Siarter Frenhinol, yw 'hyrwyddo addysg y cyhoedd', sy'n cynnwys datblygu mynediad at gasgliadau, gofalu amdanynt, eu hastudio a'u cynnal er budd cymdeithas am byth. Mae'r Siarter Frenhinol yn nodi y dylid cyflawni hyn drwy:

- ddarlunio'n gyflawn wyddoniaeth, celfyddydau, diwydiannau, hanes a diwylliant Cymru neu sy'n berthnasol i Gymru, a

- chasglu, cofnodi, diogelu, egluro a chyflwyno gwrthrychau a phethau a gwybodaeth gysylltiedig, boed yn gysylltiedig â Chymru ai peidio, y bwriedir iddynt hyrwyddo gwella dealltwriaeth a hybu ymchwil.

**6.** Mae gan Amgueddfa Cymru Fwrdd o Ymddiriedolwyr a'i rôl yw pennu cyfeiriad strategol y sefydliad a sicrhau bod ei adnoddau'n cael eu llywodraethu a'u rheoli'n briodol. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cwrdd yn rheolaidd, yn gyhoeddus, i gynnal ei fusnes. Penodir aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr gan Lywodraeth Cymru ac Amgueddfa Cymru fel y nodir yn ei Siarter Frenhinol atodol a statudau[4], ac yn unol ag egwyddorion dethol agored, fel yr argymhellir yn Adolygiad Nolan.

**7.** Mae gan Amgueddfa Cymru strategaeth gorfforaethol tan 2030[5], a gefnogir gan gynllun busnes 5 mlynedd[6] yn cwmpasu'r cyfnod 2021-2026. Bob blwyddyn, cyhoeddir cynllun gweithredol[7] hefyd yn amlinellu cynlluniau manwl ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ac yn ymateb i'r llythyr cylch gwaith.

# 2. Y broses recriwtio

**8.** Ar 10 Mawrth 2023, hysbysebodd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru rôl Cadeirydd Amgueddfa Cymru.

**9.** Anfonodd Llywodraeth Cymru fanylion y penodiad drwy restrau rhanddeiliaid a gedwir gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus a chyhoeddwyd y swydd wag ar wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru a gwefan Swyddfa Cabinet y DU.

**10.** Hyrwyddwyd y swydd wag trwy'r sianeli cyfryngau cymdeithasol ac yn y cyfryngau a restrir isod:

[4] https://amgueddfa.cymru/siarter-a-statudau/
[5] https://amgueddfa.cymru/amdano/polisi/strategaeth-2030/
[6] https://amgueddfa.cymru/nodau/cynllun-busnes-5-mlynedd-2021-2026/
[7] https://amgueddfa.cymru/cynlluniau-strategol/cynllun-gweithredol-2022-2023/

- Rhwydwaith Diversity Jobsite
- Fish4Jobs
- Black Young Professionals
- Women on Board
- The Guardian
- Cymdeithas yr Amgueddfeydd
- MuseumNext
- Safle Swyddi
- Lleol

**11.** Dyddiad cau'r ceisiadau oedd 11 Ebrill 2023. O'r naw cais a ddaeth i law, gwahoddodd Panel Cynghori Asesu Llywodraeth Cymru bedwar ymgeisydd i gyfweliad ffurfiol. Cynhaliwyd y cyfweliadau rhwng 23 a 26 Mai 2023, ac yn dilyn hynny roedd y Panel Cynghori Asesu o'r farn bod tri ymgeisydd addas i'w penodi.

### Manyleb y swydd a'r person

**12.** Bydd Cadeirydd Amgueddfa Cymru yn atebol i Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth a gall hefyd gael ei ddwyn i gyfrif gan Senedd Cymru am berfformiad Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'i lywodraethu effeithiol. Mae cyfrifoldebau manwl Cadeirydd Amgueddfa Cymru i'w gweld yn y pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr[8].

## 3. Yr ymgeisydd a ffafrir gan Lywodraeth Cymru

**13.** Yr ymgeisydd a ffafrir gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth ar gyfer swydd Cadeirydd Amgueddfa Cymru yw Kate Eden.

**14.** Mae Kate Eden yn gyfarwyddwr anweithredol gyda dwy flynedd ar bymtheg o brofiad mewn diwydiant preifat ar lefel uwch reolwyr, yn y DU ac yn rhyngwladol. Enillodd ei phrofiad mewn materion cyhoeddus, polisi a

[8] https://busnes.senedd.cymru/documents/s138283/Pecyn%20gwybodaeth%20ir%20ymgeiswyr.pdf

chyfathrebu strategol gan weithio'n bennaf yn y sector fferyllol. Daeth Kate Eden yn Aelod o Fwrdd Cyngor Celfyddydau Cymru ym mis Ebrill 2017, ac mae wedi bod yn Is-gadeirydd ers mis Mawrth 2021. Mae Kate Eden hefyd yn Aelod Annibynnol ac yn Is-gadeirydd Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn Gadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, ac yn Aelod Annibynnol o Gyngor Prifysgol Aberystwyth. Cafodd Kate Eden ei geni a'i magu yng ngogledd Cymru, gan fynychu Ysgol Alun yn Yr Wyddgrug cyn astudio Gwyddorau Cymdeithasol a Gwleidyddol yng Ngholeg y Brenin, Caergrawnt. Mae hi bellach yn byw ym Mannau Brycheiniog ac yn dysgu Cymraeg yng Ngholeg Gwent.

### Gwrthdaro Buddiant

**15.** Dylid nodi fod Kate Eden, wrth ymgeisio, wedi datgan ei rolau fel Is-gadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru ac Aelod Annibynnol o Gyngor Prifysgol Aberystwyth fel rhai sydd â gwrthdaro buddiannau posibl.

**16.** Ni wnaeth y Panel Cynghori Asesu sylw ar y datganiad a wnaed.

## 4. Gwrandawiad cyn penodi

### Cyn y gwrandawiad

**17.** Cyn y gwrandawiad cyn penodi, rhoddwyd y dogfennau a ganlyn i'r Pwyllgor gan Banel Cynghori Asesu Llywodraeth Cymru:

- briff[9] yn crynhoi'r broses recriwtio
- data amrywiaeth[10] yr ymgeiswyr a wnaeth gais am y swydd
- pecyn gwybodaeth[11] a roddwyd i ymgeiswyr ar gyfer y swydd.

**18.** Hefyd, cafodd ffurflen gais, CV a datganiad personol yr ymgeisydd a ffafrir eu rhannu'n breifat â'r Pwyllgor.

[9] https://busnes.senedd.cymru/documents/s138284/Papur%20briffio%20Llywodraeth%20Cymru.pdf
[10] https://busnes.senedd.cymru/documents/s138285/Data%20amrywiaeth%20yr%20ymgeiswyr.pdf
[11] https://busnes.senedd.cymru/documents/s138283/Pecyn%20gwybodaeth%20ir%20ymgeiswyr.pdf

**19.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r ymgeisydd a ffafrir gwblhau holiadur byr[12] cyn y gwrandawiad, er mwyn llywio cwestiynau'r Aelodau.

### Y gwrandawiad

**20.** Cynhaliwyd y gwrandawiad ar 12 Gorffennaf 2023[13]. Gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau i'r ymgeisydd a ffafrir ynghylch sut y mae'n bwriadu cyflawni rôl Cadeirydd Amgueddfa Cymru. Edrychodd y cwestiynau hyn yn fanylach ar y wybodaeth a ddarparwyd ganddynt yn eu holiadur ysgrifenedig, gan ymdrin â materion yn cynnwys:

- eu rhesymau dros wneud cais am y rôl
- eu gwybodaeth, eu profiad a'u haddasrwydd ar gyfer y rôl
- mesur llwyddiant eu gwaith yn y dyfodol
- annibyniaeth y rôl ar Lywodraeth Cymru a chraffu.

## 5. Barn y Pwyllgor

**21.** Yn unol â'r canllawiau ar wrandawiadau cyn penodi[14] y cytunwyd arnynt rhwng Llywodraeth Cymru a'r Senedd, rôl y Pwyllgor yw nodi ei farn ar addasrwydd yr ymgeisydd a ffafrir gan Lywodraeth Cymru.

**22.** Roeddem yn edmygu ymrwymiad cryf Kate Eden a'i pharodrwydd i eirioli dros anghenion Amgueddfa Cymru a llywio'r penderfyniadau anodd y bydd yn rhaid eu gwneud wrth i'r pwysau ar ariannu cyhoeddus barhau. Rydym yn croesawu ei dull cydweithredol o arwain a'i sylwadau ar ehangu cyfranogiad pellach yng ngwaith Amgueddfa Cymru.

**23.** Roeddem hefyd yn falch o nodi bod Kate Eden eisoes wedi ystyried ei rôl fel Is-gadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae ei pharodrwydd i gamu i lawr ac atal y gwrthdaro buddiannau posibl hwn yn ei rôl newydd yn ganmoladwy. Mae hyn yn rhoi hyder i ni y bydd unrhyw wrthdaro buddiannau posibl yn y dyfodol yn cael eu rheoli'n briodol.

---

[12] https://busnes.senedd.cymru/documents/s138280/Holiadur%20gwrandawiad%20cyn%20penodi%20Saesneg%20yn%20unig.pdf

[13] https://cofnod.senedd.cymru/Committee/13395

[14] https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=39109

**24.** Yn seiliedig ar ei hatebion ysgrifenedig i holiadur y Pwyllgor a'i hymatebion yn ystod y gwrandawiad cyn penodi, ni welwn unrhyw reswm na ddylid penodi Kate Eden yn Gadeirydd Amgueddfa Cymru.

**25.** Yn amodol ar benodi'r ymgeisydd a ffafrir gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip, rydym yn edrych ymlaen at wahodd yr ymgeisydd a ffafrir ar gyfer rôl y Cadeirydd i fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol fel rhan o'r rhaglen barhaus o graffu ar waith comisiynwyr statudol a chyrff cyhoeddus sy'n dod o fewn ein cylch gwaith.